# CRYNODEB O'N HADRODDIAD HUNANASESU A LLESIANT BLYNYDDOL AR GYFER 2024/25


**Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb lefel-uchel o'n Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant (AHLl) ar gyfer 2024–25. Mae ein trosolwg lefel-uchel yn cyflwyno'n gryno y cynnydd yr ydyn ni wedi'i wneud yn erbyn ein blaenoriaethau yr ydyn ni wedi cytuno arnynt. Fodd bynnag, am adolygiad manylach o'r cynnydd, gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma.**

Rydyn ni'n defnyddio ein 'Cynllun Sirol' a'n 'Nodweddion sy'n Diffinio Cyngor Rhagorol' fel map trywydd ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol y Cyngor a'i uchelgeisiau.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o amgylch y naw Amcan Llesiant yn Nghynllun y Cyngor 2022–2027, ac rydyn ni'n rhoi diweddariad manwl ar gyfer pob un. Mae themâu allweddol ein hamcanion llesiant fel a ganlyn:

- codi cyrhaeddiad addysgol
- plant a theuluoedd i ffynnu
- lleihau anghydraddoldebau
- cysylltu pobl a chymunedau
- gwella'r amgylchedd lleol a chynyddu cyfraddau ailgylchu
- busnesau newydd
- pobl yn dewis ffyrdd iachach o fyw
- gwneud cymunedau'n ddiogel ac yn ddeniadol
- darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion.

Rydyn ni wedi edrych i weld pa mor dda rydyn ni'n dod ymlaen gyda'r camau gweithredu allweddol sy'n gysylltiedig â'n **Hamcanion Llesiant ar gyfer 2024/25**.




GWYRDD (camau gweithredu naill ai wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn)

OREN (rhai problemau, ond mae gennym gynlluniau clir i'w datrys)

COCH (yn wynebu heriau mwy)

Mae ein llwyddiant yn ganlyniad i waith caled ein staff a'n ffyrdd newydd o dracio cynnydd ar draws y Cyngor a'i reoli.

Rhannwyd adroddiad llawn sy'n dangos cynnydd manwl gyda'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2025. Gallwch weld yr adroddiad ar-lein yma:

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg i ddangos sut yr ydyn ni'n dod ymlaen ar draws ein holl nodau llesiant, ac yn disgrifio'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni, yr heriau sy'n weddill, a ble mae angen i ni ganolbwyntio nesaf.



# Amcan llesiant 1

**– byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol**

**Cyflawnwyd yn 2024/25:**

- £15 miliwn wedi'i ymrwymo i ysgolion newydd, estyniadau i ysgolion ac adnewyddu ysgolion
- Y Gwasanaeth Addysg wedi'i dynnu oddi ar restr Estyn o awdurdodau sy'n achosi pryder sylweddol
- Dim ysgolion prif ffrwd yng nghategorïau statudol Estyn ar hyn o bryd
- Gostyngiad pellach yn y gyfradd Ddim Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant i 1.8%
- Parhau i gynnig profiad gwaith i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yn ein caffi a'n gwasanaeth cynnal a chadw beiciau
- Darparu cymwysterau achrededig i ddisgyblion ysgolion uwchradd wedi'u targedu
- Mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn parhau i wella
- Codi cymwysterau o raglenni cyflogadwyedd o 1,050 i 1,431, gan ragori ar y targedau
- Cefnogi 402 o unigolion economaidd anweithgar a di-waith hirdymor i gael gwaith

**Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Gwella deilliannau i ddysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad i ddysgwyr sy'n fregus a dan anfantais
- Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn arbenigol ac yn cael ei thargedu'n effeithiol

# Amcan llesiant 2

**- byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu**

**Cyflawnwyd yn 2024/25:**

- Dylunio ac adeiladu maes 3G newydd yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw
- Lansio Fforwm Ieuenctid Torfaen i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i ddweud eu dweud am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- Lefelau isaf o blant sy'n derbyn gofal, ers mis Tachwedd 2017
- Parhau i gynnal ymgyrchoedd amrywiol i hyrwyddo gofalwyr maeth mewnol a'u cynyddu
- Cefnogi 97 o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl cymhleth, a'u ffrindiau a'u teuluoedd, yn ogystal â rhoi cymorth seicolegol i 130 o bobl ifanc eraill sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Plant.
- Agor ein darpariaeth breswyl ein hunain i blant – Byngalo Greenhill

**Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Datblygu Cynnig a Strategaeth newydd i Ieuenctid a chynyddu'r ddarpariaeth fynediad agored a'r ddarpariaeth wedi'i thargedu i Bobl Ifanc



- Lleihau ein poblogaeth plant sy'n derbyn gofal, ar gyflymder addas
- Datblygu ystod eang o lety i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal
- Gwella ein model comisiynu cyffredinol, fel y mae'n ymwneud â llety a gwasanaethau eraill a gomisiynir, er mwyn cael mwy o reolaeth dros y farchnad

## Amcan llesiant 3

- **byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar  weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad**

**Cyflawnwyd yn 2024/25:**

- Cwblhau ein Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a'n Cynllun Cyflawni 3-blynedd cysylltiedig, gan osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwasanaethau tai yn Nhorfaen, a sicrhau cynllunio a chyflawni effeithiol
- Cynyddu argaeledd llety â chymorth trwy weithio gyda darparwyr tai a darparwyr lleol i ddatblygu gwasanaethau wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc
- Ail-drefnu ac ail-gomisiynu Cymorth ar gyfer Cam-drin a Thrais Domestig (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) a gwasanaethau llety i ddiwallu anghenion y gymuned yn well wrth iddynt esblygu.
- Cydweithio â phartneriaid lleol a rhanbarthol i ddatblygu ystod o wasanaethau arbenigol, a'u cynnal
- Ymgynghori â thrigolion i ddylanwadu ar gyflawni ein ffordd newydd o weithio sy'n canolbwyntio ar y gymuned
- Gweithredu ein Cynllun i Gefnogi Cymunedau, gan roi llesiant ac atal wrth galon y broses o ddarparu gwasanaethau
- Lansiwyd ein: Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, Drws Ffrynt ac Ail-alluogi
- Datblygwyd Cynnig Cymunedol i hyrwyddo ymyrraeth gynnar a rhoi cymorth yn uniongyrchol o fewn cymunedau
- Cyflwynwyd model ymyriad cynnar ac atal i feithrin cydnerthedd a gwella iechyd a llesiant hirdymor

**Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal yn ystyriaeth allweddol i'n ffordd o weithio wrth ddarparu cymorth gyda thai a lleihau'r galw am dai
- Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy trwy ddatblygiadau a rhaglenni i ddefnyddio eiddo gwag unwaith eto
- Adolygu ein trefniadau comisiynu ataliol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu ac yn ymatebol i anghenion unigolion, gan gynnwys cymorth tai

## Amcan llesiant 4

- **gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn  gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol.**

**Cyflawnwyd yn 2024/25:**

- Cwblhawyd gwaith adfer i fynd i'r afael â materion hanesyddol gyda'r platfform yng Ngorsaf Drenau Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd
- Cefnogwyd 16 ysgol i ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol unigol
- Lansiwyd ein hwb cymorth newydd i gyn-filwyr yng Nghwmbrân

- Lansiwyd "Cysylltu Torfaen," sef rhaglen bartneriaeth newydd sydd wedi'i chynllunio i gynyddu cyfleoedd cyllido ar gyfer sefydliadau'r Trydydd Sector

**Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Cynyddu cyfleoedd i'n trigolion ymgysylltu'n ddigidol â ni a rhoi cymorth i'r rheiny sydd ddim yn ymgysylltu'n ddigidol
- Gweithio'n agosach gyda'n Cynghorau Cymuned i flaenoriaethu gweithgarwch ar lefel Cyngor Cymuned ynghylch beth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i lesiant cymunedol
- Ymchwilio i effaith ein gweithgareddau / penderfyniadau ar lesiant, ar lefel leol

## Amcan llesiant 5

**- ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol**

**Cyflawnwyd yn 2024/25:**

- Cyflwyno system ailgylchu bagiau coch newydd ar gyfer plastig, caniau, tuniau a chartonau
- Cytunwyd yn derfynol ar ein Polisi Addysg a Gorfodi Gwastraff
- Adolygwyd ein Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus cyfredol (Rheolau Mannau Cyhoeddus Agored) mewn ymgynghoriad â thrigolion
- Parhau â mentrau ar y cyd â phartneriaid a chymunedau i ddod o hyd i unigolion sy'n tipio'n anghyfreithlon
- Gwahoddwyd trigolion i gymryd rhan mewn ymgynghoriad i helpu i ddylanwadu ar gynlluniau rheoli newydd ar gyfer gwarchod a gwella ein parciau lleol
- Parhau i gynnal digwyddiadau Gwanwyn Glân Blynyddol ar draws y Fwrdeistref
- Cefnogwyd cynlluniau cwm Blaenserchan gan lwyddo i ddod yn Warchodfa Natur Leol
- Gwella bioamrywiaeth yng Nghoed Meyric Moel, gan gynnwys plannu gwrychoedd newydd a datblygu coridorau bywyd gwyllt naturiol

**Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Parhau i leihau gwastraff bwyd yng ngheginau ein hysgolion
- Cyflawni cyfradd ailgylchu o 70 y cant. Gallai methu â chyrraedd 70 y cant erbyn 2025 gael effaith ariannol ar holl wasanaethau ein Cyngor trwy ddirwyon posibl.

## Amcan llesiant 6

- **byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd**

**Cyflawnwyd yn 2024/25:**

- Cynhaliwyd digwyddiad gydag arweinwyr busnes, darparwyr hyfforddiant, a chynrychiolwyr y Cyngor i archwilio ffyrdd o hyfforddi'r gweithlu lleol ar gyfer economi gystadleuol ac arloesol
- Rhoddwyd cymorth busnes digidol am ddim, trwy bartneriaeth rhwng y Cyngor a chwmni datrysiadau digidol lleol
- Dyfarnwyd grantiau i wyth menter gymdeithasol i helpu i sicrhau eu sefydlogrwydd ariannol hirdymor
- Cynigiwyd cyrsiau cychwyn busnes i gefnogi unigolion i sefydlu eu mentrau eu hunain



- Codwyd cyfraddau meddiannaeth yn ein Canolfan Arloesi Busnes Springboard, gan gefnogi busnesau gwyddoniaeth a thechnoleg twf uchel
- Adolygwyd cynllun busnes ar gyfer Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl, gan wahodd trigolion i gymryd rhan mewn arolwg i helpu i ddylanwadu ar ei dyfodol a gwella'r farchnad

**Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Mae cyfradd chwyddiant y DU yn 2.2%; Cyfradd Sylfaenol y Banc yw 5%. Mae'r anwadalrwydd economaidd ar draws y byd trwy gydol 2023-2024 wedi creu ansicrwydd. Bydd tueddiadau economaidd y DU yn dylanwadu ar berfformiad yn Nhorfaen a'r rhanbarth ehangach yn y dyfodol. Gall anwadalrwydd parhaus herio twf busnesau a'u gallu i ehangu, er gwaethaf ymdrechion lleol i fagu cydnerthedd.
- Mae Mynegai Cystadleurwydd y DU (UKCI) yn dangos gwelliant ar draws awdurdodau Cymoedd y Gogledd — ac eithrio Torfaen, a aeth i lawr o safle rhif 336 i safle rhif 346 (2019–2023). Meysydd blaenoriaeth ar gyfer Torfaen: cynyddu busnesau newydd sy'n seiliedig ar dechnoleg a gwella datblygiad sgiliau mewn Cymwysterau Uwch ac ar lefel uwch
- Bydd cyllid Rhaglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a Chyllid y Llywodraeth ar gyfer Prosiectau Lleol (Y Gronfa Ffyniant Gyffredin) yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. Darparwyd cyllid interim ar gyfer 2025–2026, ond mae cyllid ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr. Mae llawer o raglenni twf economaidd a chymorth busnes rhanbarthol yn dibynnu ar y cronfeydd hyn.
- Datblygu Glasbrint ar gyfer Twf a chytuno arno – bydd hyn yn gofyn am alinio blaenoriaethau amrywiol rhanddeiliaid, ffeindio'n ffordd trwy ffactorau allanol cymhleth ac ansicr, a cheisio cael cydbwysedd rhwng uchelgeisiau ac adnoddau cyfyngedig. Mae'r broses yn gofyn am ddata cadarn, ymgysylltu effeithiol, ac arweinyddiaeth gref i reoli safbwyntiau gwahanol, sicrhau cefnogaeth, a sicrhau bod y cynllun yn strategol ac yn gyflawnadwy o dan graffu cyhoeddus a gwleidyddol.
- - Bydd sefydlu rhaglenni gwaith a chanlyniadau o dan y pedwar piler – Buddsoddi, Creu Lleoedd, Cynllunio ac Eiddo – yn her allweddol oherwydd yr angen am aliniad clir ar draws meysydd amrywiol a rhyng-ddibynnol. Mae pob piler yn cynnwys amcanion cymhleth, hirdymor sy'n gofyn am gynllunio cydgysylltiedig, cydweithredu ar draws adrannau, a darparu adnoddau â chysondeb. Mae sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, sicrhau ymgysylltiad rhanddeiliaid, a diffinio canlyniadau mesuradwy sy'n adlewyrchu uchelgais strategol ac anghenion lleol yn cymhlethu'r dasg ymhellach.
- Datblygu strwythur staff priodol i gyflawni'r Glasbrint ar gyfer Twf ar draws y ddau gyngor – bydd hyn yn heriol oherwydd yr angen i alinio gallu, sgiliau ac adnoddau'r sefydliad â chyd-weledigaeth strategol. Bydd hefyd yn golygu ffeindio'n ffordd trwy drefniadau llywodraethu, diwylliannau gweithlu, a modelau gweithredu gwahanol, gan sicrhau bod y strwythur yn ddigon hyblyg i gefnogi cydweithio ar draws y Cynghorau, atebolrwydd a chyflawni hirdymor.

## Amcan llesiant 7

- **- hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella llesiant meddwl a chorfforol**

**Cyflawnwyd yn 2024/25:**

- Agorwyd cyfleuster chwarae newydd yn y Ganolfan Ddinesig i gefnogi rhieni a phlant
- Trawsnewidiwyd safle anghyfannedd ym Mhontnewynydd yn barc chwarae cynhwysol, gan greu lle croesawgar i bob plentyn
- Cwblhawyd maes 3G newydd yn Ysgol Abersychan at ddefnydd yr ysgol a chymunedau
- Lansiwyd rhaglen chwaraeon arloesol i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, gan eu helpu i ail-fyw eu hoff chwaraeon a byw bywydau mwy egnïol a gwerth chweil
- Cyflwynwyd yr ymgyrch 'Ffynnu – Byw Bywyd Llawn a Llewyrchus', gan annog trigolion 60+ oed i gadw'n iach ac yn actif



- Creu 'Llyfrgell Fenthyg' i hyrwyddo gweithgarwch corfforol trwy gynnig mynediad hawdd at offer chwaraeon i drigolion o bob oed
- Mewn partneriaeth â Chynghorau Cymuned Blaenafon a Chwmbrân, lansiwyd 'Ystafelloedd Cit Chwaraeon Cymunedol', sy'n darparu offer a dillad chwaraeon am ddim i deuluoedd ar incwm isel
- Bwrw ymlaen â'r cynlluniau i drawsnewid hen gyrtiau tenis segur ym Mlaenafon yn gyfleuster chwaraeon aml-ddefnydd
- Cynhaliwyd ymgynghoriadau â thrigolion i gasglu barn am weithgareddau chwaraeon, hamdden a ffitrwydd lleol, a ddylanwadodd ar ein Strategaeth Chwaraeon, Llesiant a Hamdden ar gyfer Cymunedau

**Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Cwblhau'r cyfleusterau 3G ar gyfer yr ysgol a chymunedau yn Nhrefddyn, Llantarnam ac Abersychan
- Datblygu fframwaith strategol cliriach ar gyfer ein buddsoddiad mewn chwaraeon a hamdden yn Nhorfaen
- Ystyried sut yr ydym yn comisiynu gwasanaethau chwaraeon a hamdden

## Amcan llesiant 8

**– byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth lleol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef**

**Cyflawnwyd yn 2024/25:**

- Dechreuwyd gwaith adeiladu ar ailddatblygu Fferm Gymunedol Greenmeadow
- Gwahoddwyd trigolion i weithdai cymunedol i rannu syniadau am drawsnewid Tref Pont-y-pŵl a Chanol Cwmbrân
- Sefydlwyd Bwrdd Buddsoddi Tref Cwmbrân i ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer dyfodol Canol Tref Cwmbrân

**Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Symud ymlaen â phrosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro i'r cam cyflawni a sicrhau eu bod yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd ar gyfer Pont-y-pŵl
- Y British - datblygu cynllun hyfyw hyd at y cam cynllunio
- Llunio Uwchgynllun ar gyfer basn camlas 5 Loc, ochr yn ochr â gweithredu'r rhaglenni gwirfoddol ehangach

## Amcan llesiant 9

**- darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a hynny i adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau**

**Cyflawnwyd yn 2024/25:**

- Parhawyd i annog a chefnogi hunanwasanaeth digidol trwy wefan ac ap y Cyngor, gan helpu cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'n fwy effeithlon

**Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

- Bydd angen buddsoddiad i gyflawni ein strategaeth Gwella Gwasanaethau Ar-lein, naill ai trwy fuddsoddi i arbed neu trwy wireddu ac ailddosbarthu arbedion effeithlonrwydd.

# BLAENORIAETHAU A HERIAU

Mae gennym nodau mawr ar gyfer y dyfodol. Er mwyn eu cyrraedd, mae angen i ni ddelio â'r heriau sy'n gysylltiedig â phob un o'n Hamcanion Llesiant. Rydyn ni wedi creu Cynllun Cyflawni ar gyfer 2025/26. Mae'r cynllun hwn yn edrych ar:

- y cynnydd a wnaethom yn 2024/25,
- yr heriau yr ydyn ni'n eu hwynebu o hyd,
- a'r hyn y mae angen i ni ei wneud nesaf.


Cytunodd y Cyngor ar Gynllun Cyflawni 2025/26 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025. Mae'n ein helpu i symud o'r syniadau i'r gweithredu, wrth i ni ddechrau ar gam nesaf ein Cynllun Sirol. Byddwn yn diweddaru ein cynlluniau bob blwyddyn.

Mae hyn yn golygu y gallwn:

- ymateb i heriau newydd,
- manteisio ar gyfleoedd newydd,
- a pharhau i fod yn hyblyg.

Byddwn yn parhau i gadw llygad ar sut yr ydyn ni'n dod ymlaen trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn ein helpu i ddangos beth sy'n gweithio a beth sydd angen gwella. Mae'n rhan allweddol o sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau ac yn gwella bywydau pobl yn Nhorfaen.




1. Cyngor arloesol …
• Sy'n drawsnewidiol ac yn barod i wneud pethau'n wahanol
• Un sy'n frwdfrydig i gymryd risg
• Meithrin arloesi yn y gweithle a thu allan
• Un sy'n chwilfrydig ac yn agored i dueddiadau a thechnolegau newydd
2. Cyngor ysbrydoledig a gweledigaethol sy'n…
• Gwella bywydau drwy arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion effeithiol
• Adnabod a bachu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol
• Gosod cyfeiriad clir a nodau hirdymor
• Lleihau ei ôl-troed carbon
3. Cyngor sy'n perfformio ar lefel uchel, sy'n…
• Cyfleu blaenoriaethau a disgwyliadau'r cyngor
• Un sydd bob amser yn dysgu ac am wella
• Mesur yr hyn sy'n bwysig i drigolion a chymunedau
• Un sy'n hunanwerthuso i ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau
• Un sy'n deall ei bwrpas ac yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol
4. Cyngor cydweithredol a chynhwysol sy'n…
• Meithrin natur gynhwysol a chyfartal
• Cydnabod cyfraniad eraill
• Croesawu her a chyfathrebu gan gydweithwyr, cyfoedion a phartneriaid
• Canolbwyntio ar gryfderau partneriaid a chymunedau
• Agored i rannu adnoddau gyda phartneriaid a chymunedau
• Croesawu syniadau ac yn agored i gefnogi i gyflawni ei flaenoriaethau strategol
5. Cyngor wedi ei rheoli'n dda, sydd yn…
• Croesawu ei werthoedd craidd
• Gwerthfawrogi llesiant a chyfraniad staff
• Buddsoddi mewn staff a meddu ar gynlluniau ar gyfer gweithlu'r dyfodol
• Ffordd dda o reoli i sicrhau y gweir penderfyniadau cadarn
6. Cyngor ysgogol a hygyrch sy'n…
• Defnyddio ystod eang o offer i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid
• Cynnwys staff a thrigolion ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw
• Manteisio ar syniadau gan gwsmeriaid a staff
• Agored ac yn onest gyda staff a thrigolion
• Rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol ac yn dathlu llwyddiant
7. Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol, sy'n…
• Meddu ar ddulliau llywodraethu ariannol cadarn
• Rheoli adnoddau'n llwyddiannus ac yn ceisio gwerth am arian
• Cynhyrchu incwm lle bo hynny'n briodol
• Hyrwyddo mewnfuddsoddi i'r eithaf
• Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol
8. Cyngor sy'n ddigidol, sy'n cael ei arwain gan ddata, ac sy'n…
• Defnyddio data i rhagweld anghenion
• Creu proffiliau digidol i ddeall siwrneiau cwsmeriaid yn well
• Bob amser ymlaen – galluogi trigolion i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau digidol
• Cynnwys trigolion drwy gynhwysiant digidol a llwyfannau digidol
Torfaen Sy'n Gyfrifol Ar Lefel Fyd-eang
Torfaen Lewyrchus
Torfaen Gydnerth
Torfaen Iachach
Torfaen sy'n Fwy Cyfartal
Torfaen o Gymunedau Cydlynus
Torfaen â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu



# TORFAEN: CYNGOR RHAGOROL:

Rydyn ni wedi datblygu ein fframwaith mewnol ein hunain ar gyfer gyrru gwelliant o fewn Cyngor Torfaen – ein 'Nodweddion sy'n diffinio Cyngor Rhagorol'. Mae ein Cynllun Sirol yn dangos sut y byddwn yn gwella bywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Nhorfaen. Mae ein fframwaith ar gyfer Cyngor Rhagorol yn esbonio sut y byddwn yn gwneud i'r Cyngor weithio'n well, er mwyn i ni allu cyflawni'r gwelliannau hynny yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Yn union fel yr ydyn ni'n ei wneud gyda'r Cynllun Sirol, rydyn ni'n cadw golwg ar y camau allweddol sy'n ein helpu i ddod yn Gyngor Rhagorol. Isod mae crynodeb syml o sut rydyn ni wedi dod ymlaen hyd yn hyn, ar sail ein 8 nodwedd, yn ystod y flwyddyn 2024/25.

## 1

**Cyngor arloesol sydd wedi:**

- Dangos ystwythder a phositifrwydd wrth addasu i heriau a mentrau newydd
- Cymryd rhan mewn Adolygiad Cyngor cyfan, a oedd yn canmol strategaethau uchelgeisiol y Cyngor h.y. i ffedereiddio â Blaenau Gwent a'n strategaeth ar gyfer lleihau Anghydraddoldebau Iechyd
- Canolbwyntio ar Ymyrraeth Gynnar ac Atal gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a chynaliadwyedd a gafodd gydnabyddiaeth am fod yn arloesol ac o fudd cenedlaethol
- Lansio ein menter 'Rebel Torfaen', fel ffordd newydd o weithio gyda'r nod o ddarparu safbwyntiau ehangach a mwy amrywiol am heriau'r Cyngor
- Canolbwyntio ar wella sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ein staff
- Gweithredu proses recriwtio a sefydlu ar-lein newydd
- Cyflwyno platfform Dysgu a Datblygu newydd ar gyfer ein staff

## 2

**Cyngor ysbrydoledig a gweledigaethol sy'n:**

- Gosod cyfeiriad clir ar gyfer y sefydliad gyda nodau hirdymor i wella llesiant ar draws Torfaen
- Parhau i gydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i ddod yn rhanbarth Marmot, gan ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant
- Sicrhau buddsoddiad o £5 miliwn gan Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd dros 5 mlynedd. Yn rhan o'r buddsoddiad hwn, rydyn ni wedi creu Canolfan Ymchwil Iechyd newydd sy'n dod ag arbenigwyr ar ymchwil a data at ei gilydd ac yn ein helpu i dargedu adnoddau'n effeithiol a mynd i'r afael â'r achosion wrth wraidd anghydraddoldeb



**3**

### Cyngor sy'n perfformio ar lefel uchel, sydd wedi:

- Adolygu ein ffordd o ddal adborth trigolion a chwsmeriaid yn fwy effeithlon
- Cyfrannu at ddatblygu arolwg cenedlaethol i drigolion gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Data Cymru
- Cydnabod yr angen i gael ei yrru'n fwy gan ddata a deallusrwydd er mwyn perfformio ar lefel uchel
- Targedu cymorth dwys ar gyfer prosiectau allweddol, i:
  - Leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel
  - Ailfodelu Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal
  - Deall y defnydd o ynni ac allyriadau carbon
  - Gwella perfformiad y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu
- Datblygu strategaeth newydd i sicrhau defnydd effeithlon a phriodol o adeiladau'r Cyngor

**4**

### Cyngor cydweithredol a chynhwysol sydd wedi:

- Ymrwymo'n gadarn i gynhwysiant a chydraddoldeb ar draws y sefydliad
- Sefydlu 'Meddyliau Amrywiol' ym mis Ionawr 2025, sy'n canolbwyntio ar y gweithle, profiadau, strategaethau, ac agweddau cadarnhaol at niwroamrywiaeth
- Mabwysiadu ein Cynllun i Gefnogi Cymunedau, ym mis Ebrill 2024, sy'n rhoi cymunedau, llesiant, ac atal wrth wraidd ein gwaith ar ddylunio gwasanaethau
- Sefydlu ein Strategaeth Cyfranogiad ar draws pob Cyfarwyddiaeth
- Ffurfio Grŵp Cyfranogiad ar gyfer staff i wella'r gwaith o gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol a'u cynhwysiant
- Cynyddu ein hymgysylltiad trwy ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a chynyddu'r nifer sydd wedi cofrestru ar gyfer ein porth 'Cymryd Rhan'
- Cryfhau'r bartneriaeth â Blaenau Gwent er mwyn gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd

**5**

### Cyngor wedi ei reoli'n dda sydd wedi:

- Cryfhau ein Strategaeth ar gyfer y Gweithlu i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun y Cyngor a dyletswyddau cyfreithiol
- Gweithredu Rhaglen Hyfforddiant a Rhaglen Lesiant ar gyfer ein staff
- Cyflwyno system arfarnu perfformiad newydd, y mae mewnbwn staff wedi dylanwadu arni
- Cael gwelliannau cadarnhaol sylweddol, o fewn ein Harolwg Staff
- Cael ein henwi yn un o gyflogwyr gorau'r DU gan y Financial Times (Mawrth 2025)
- Gweithredu newidiadau strwythurol i gefnogi model gweithio newydd ar sail ffederasiwn
- Sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn dal i fod yn gryf ac yn gadarn.

**6**

### Cyngor ysgogol a hygyrch sydd â:

- Fforymau a rhwydweithiau sydd wedi eu sefydlu'n dda (e.e. Panel Dinasyddion, Fforwm Ieuenctid) sy'n cymryd rhan weithgar yn y broses o wneud penderfyniadau
- Aelod-Hyrwyddwyr (e.e. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Gofalwyr, Cynaliadwyedd, Iechyd Meddwl) yn chwarae rhan allweddol wrth gynrychioli meysydd penodol
- Cyfathrebu rheolaidd, trwy sianelau amrywiol, gyda thrigolion ac Aelodau
- Arolwg Trigolion a roddodd gyfle i drigolion rannu eu barn am fywyd yn Nhorfaen a phrofiadau o wasanaethau'r Cyngor.
- Mecanweithiau newydd y gall y Cyngor eu defnyddio i ymgysylltu â mwy o bobl ifanc



## 7

**Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol sydd â:**

- Phrosesau sydd wedi'u llywodraethu'n dda yn ariannol gyda chyllidebau a systemau cadarn
- Cadarnhad o gydymffurfiaeth a defnydd priodol o arian cyhoeddus trwy ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB)
- Cwmpas wedi'i nodi i gryfhau trefniadau comisiynu
- Fframwaith comisiynu i wella gwerth am arian a chysondeb
- Tîm rheoli prosiectau - prosiect Apollo i fynd i'r afael â diffygion ariannol tymor canolig a chefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau a rhaglenni strategol
- Swyddogaeth gaffael gryfach, trwy gydweithio â'r gwasanaeth caffael sy'n cael ei redeg gan Gyngor Dinas Caerdydd
- Llwyddiant parhaus i ddenu mewnfuddsoddiad a sicrhau cyllid allanol

## 8

**Cyngor sy'n ddigidol, sy'n cael ei arwain gan ddata, ac sydd wedi:**

- Datblygu gweledigaeth strategol glir trwy ein Cynllun Gwasanaethau Ar-lein
- Dylunio rhaglen sgiliau digidol i feithrin gallu'r gweithlu
- Canolbwyntio ar gynyddu cyfraddau trafodion ar-lein
- Defnyddio adborth cwsmeriaid i wella gwasanaethau (e.e. trefnu slot ar gyfer Gwastraff Swmpus)
- Parhau i symud ymlaen i awtomeiddio a symleiddio ein prosesau busnes

# Y FLWYDDYN NESAF A THU HWNT:

Rydyn ni eisiau newid sut rydyn ni'n gweithio. Rydyn ni eisiau sicrhau mai ein cymunedau, llesiant, ac atal yw elfennau pwysicaf ein gwasanaethau. Mae hyn yn golygu helpu pobl i:

- fyw bywydau iachach,
- teimlo eu bod wedi eu cysylltu'n well,
- a chael cyfleoedd tecach.

Credwn y dylai ein cymunedau gael mwy o lais mewn penderfyniadau. Rydyn ni eisiau rhannu pŵer a meithrin ymddiriedaeth.

Mae hyn yn golygu:

- gadael i bobl leol helpu i benderfynu sut mae arian yn cael ei wario,
- cydweithio i ddylunio gwasanaethau a'u rhedeg,
- a sicrhau bod gwasanaethau yn bodloni anghenion lleol go iawn.

Rydyn ni eisiau i drigolion, partneriaid, a'r Cyngor gydweithio fel partneriaid cyfartal. Mae hyn yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach sy'n gallu delio â heriau a thyfu. Byddwn yn rhoi mwy o reolaeth i gymunedau dros bethau fel:

- cyllidebau (arian),
- adeiladau a lleoedd (asedau), a
- sut y mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu.

Rydyn ni wedi dechrau gwneud newidiadau yn barod. Rydyn ni nawr yn canolbwyntio'n fwy ar gymorth cynnar ac atal — atal problemau cyn iddyn nhw ddechrau. Ond rydyn ni'n gwybod na all y Cyngor wneud hyn ar ei ben ei hun. Mae angen i ni weithio gyda: ein staff, ein partneriaid, a'n cymunedau i sicrhau bod atal yn rhan o bopeth a wnawn.

Bydd pob rhan o'r Cyngor yn chwilio am ffyrdd i:

- atal problemau cyn iddynt dyfu,
- helpu pobl i gadw'n iach,
- a gwneud pethau'n decach.



Byddwn yn mesur llwyddiant yn ôl yr hyn rydyn ni'n ei atal ac nid dim ond yr hyn rydyn ni'n ei ddatrys. Rydyn ni'n creu ffordd newydd o weithio o'r enw Y Fargen Torfaen. Nid dim ond cynllun yw hwn - mae'n addewid i weithio'n wahanol. Mae'r Fargen yn golygu:

- rhannu pŵer,
- gwneud penderfyniadau gyda'n gilydd,
- ac ymddiried mewn cymunedau i wybod beth sy'n gweithio orau.

Gyda'n gilydd, byddwn yn:

- lleihau problemau iechyd,
- yn gwella llesiant,
- ac yn meithrin cymunedau cryf, balch a grymus.

Byddwn yn cyflawni ein 'Bargen' â Chymunedau trwy 5 cenhadaeth a rennir:

**Cenhadaeth Un: Blynyddoedd Cynnar - Adeiladu Dyfodol Disglair**

Cefnogi pob plentyn i ffynnu trwy osod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes - gan roi sylw i lesiant gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol

**Cenhadaeth Dau: Ysbrydoli Dysgu Gydol Oes, Uchelgais a Chydnerthedd**

Grymuso pobl o bob oed i fyw bywydau gwybodus, annibynnol ac iach, gan feithrin uchelgais a chydnerthedd gydol oes

**Cenhadaeth Tri: Llesiant Trwy Arweinyddiaeth Gymunedol**

Partneru â chymunedau i ffrwyno cryfderau lleol a gwella llesiant, gan leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol trwy atebion rhagweithiol, a arweinir gan y gymuned

**Cenhadaeth Pedwar: Economi Ffyniannus, Lleoedd Bywiog**

Gyrru twf economaidd cynaliadwy a chreu cymunedau bywiog sydd wedi'u cysylltu'n dda lle gall pobl a busnesau ffynnu

**Cenhadaeth Pump: Cymunedau wedi'u Grymuso, Rhannu Pŵer a a Llwyddiant**

Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i ddal eu hegni a'u huchelgais, gan gydweithio i gynllunio gwasanaethau a chreu amodau ar gyfer cydnerthedd, hunan-ddibyniaeth, a rhannu llwyddiant

Flwyddyn yn ôl, addawodd y Cyngor i ddod yn **Gyngor Tecach ac Iachach**. Mae hyn yn golygu ein bod am **leihau anghydraddoldeb** a **gwneud bywydau yn well i bawb** yn Nhorfaen.

Rydyn ni'n gwybod nad dim ond dewisiadau personol neu ofal meddygol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant. Mae pethau fel ble mae pobl yn cael eu geni, yn byw, yn gweithio ac yn tyfu'n hŷn yn cael effaith fawr ar eu hiechyd. Felly, mae angen i ni edrych ar y **system gyfan** - nid dim ond gofal iechyd - i ddatrys problemau a chreu atebion hirdymor, teg.

Rydyn ni'n defnyddio Y Fargen Torfaen i helpu i wireddu hyn. Rydyn ni eisiau bod yn gyngor sy'n dysgu — gan wrando ar adborth gan:

- y cyhoedd,
- ein partneriaid, ac
- adolygiadau o wasanaethau.

Byddwn yn parhau i gadw llygad, i weld a yw ein gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Byddwn yn defnyddio ffordd newydd o werthuso ein gwaith. Bydd hyn yn ein helpu i:

- barhau i wella,
- gwneud penderfyniadau gwell,
- a chael mwy o effaith ar lesiant pobl.

Rydyn ni eisiau dyfodol lle mae pawb yn cael eu trin yn deg er mwyn iddyn nhw allu ffynnu mewn cymunedau cryf a chynhwysol. Byddwn yn meithrin ymddiriedaeth, yn rhannu cyfrifoldeb, ac yn gweithio gyda thrigolion a phartneriaid i wneud newid parhaol. Mae ein cynlluniau'n feiddgar, ac mae ein gwaith gyda Chyngor Blaenau Gwent yn dangos ein bod yn arwain y ffordd yng Nghymru.

Gellir dod o hyd i gopi llawn o'n Hadroddiad Blynyddol yma.

